Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Dealltwriaeth

## Cynllun Cyflawni Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Cymru

2025 i 2028



Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o 'DEALLTWRIAETH: Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru 2025 – 2028'.

Ebrill 2025

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma




Dyma ddogfen hawdd ei deall. Efallai y byddwch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod eich helpu chi.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau glas yn ei feddwl ar dudalen 26.

Os oes angen cymorth gyda'ch iechyd meddwl arnoch, gallwch ffonio **Llinell Gymorth CALL: 0800 132 737** neu'r **Samariaid: 116 123**. I gael cymorth brys ffoniwch y **GIG ar 111** a **gwasgwch 2**. Os yw hunanladdiad yn effeithio arnoch, mae **Gwasanaeth Cynghori a Chyswllt Cenedlaethol Cymru** yn cynnig cymorth cyfrinachol am ddim i bobl yng Nghymru: **08000 487742**

Daw'r lluniau yn y ddogfen hon o Photosymbols:
**www.photosymbols.com/**

OGL © Crown copyright 2025, Welsh Government, WG51889
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg hefyd / This document is also available in Welsh
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:




E-bost:
**mentalhealthandvulnerable groups@gov.cymru**

Neu ymweld




Gwefan:
**www.llyw.cymru/deall-strategaeth-atal-hunanladdiad-hunan-niweidio**



Testun Hawdd ei Ddarllen wedi'i ddarparu gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** a dogfen wedi'i dylunio gan **Lywodraeth Cymru**.

# Cynnwys


Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma 1

Cyflwyniad 3

Ble rydyn ni nawr 5

Cynllun cyflawni 11

**Nod 1 Gwrando a Dysgu 11**

**Nod 2: Stopio 14**

**Nod 3: Grymuso 16**

**Nod 4: Cefnogi 18**

**Nod 5: Arfogi 21**

**Nod 6: Ymateb 24**

Geiriau anodd 26

# Cyflwyniad




Mae'r cynllun cyflawni yma yn dweud beth fyddwn ni'n ei wneud i gyflawni'r nodau yn:

**"Dealltwriaeth - Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Cymru 2025 i 2035".**

**3 blynedd**

Mae hwn yn gynllun 3 blynedd. Mae'n dweud beth fyddwn ni'n ei wneud rhwng 2025 a 2028 i:



- Lleihau nifer y  marwolaethau drwy **hunanladdiad**.



- Cefnogi pobl sy'n **hunan-niweidio** ac yn meddwl am **hunanladdiad**.



- Cefnogi pobl sydd wedi colli rhywun i **hunanladdiad**.



**Hunanladdiad** ydy pan fydd person yn dod â'i fywyd ei hun i ben.

**Hunan-niweidio** ydy pan fydd rhywun yn brifo eu hunain yn fwriadol.




Mae'r cynllun cyflawni yma yn rhestru'r camau gweithredu mae angen i ni eu gwneud i gyflawni'r 6 nod yn y strategaeth.



Darllenwch y brif strategaeth i ddarganfod mwy am bob nod.
**www.llyw.cymru/deall-strategaeth-atal-hunanladdiad-hunan-niweidio**



Mae gan bob gweithred sefydliad arweiniol, sy'n gyfrifol am wneud yn siŵr ei fod yn cael ei wneud. Ond, fe fydd pawb yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni'r camau gweithredu.



Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn fersiwn lawn y Cynllun Cyflawni
**www.llyw.cymru/strategaeth-atal-hunanladdiad-hunan-niweidio-cynllun-cyflawni-2025-i-2028**




Neu rydych chi'n gallu cysylltu â:
**mentalhealthandvulnerablegroups@gov.wales**

# Ble rydyn ni nawr




Mae'r camau gweithredu yn y cynllun yma yn adeiladu ar:

- rhai o'r pethau sydd wedi'u rhoi ar waith yn barod



- a'r gwaith rydyn ni'n ei wneud mewn meysydd eraill.

Er enghraifft:



- Mae gennym ni dîm ymroddedig yn y GIG i arwain ar **hunanladdiad** a **hunan-niweidio** ar draws Cymru.




- Mae gennym ni system ar gyfer casglu gwybodaeth am hunanladdiadau dan amheuaeth. Ei enw ydy **Gwyliadwriaeth Amser Real Huanladdiad Tydiedig (RTSSS)**. Mae hyn yn ein helpu i ddarparu gwybodaeth heb oedi, fel bod gwasanaethau'n gallu ymateb yn gynt o lawer. A chael y wybodaeth maen nhw ei angen i ddarparu gwell cefnogaeth.



- Rydyn ni wedi ariannu **Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil i Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed**.



- Rydyn ni wedi dechrau dod â gwasanaethau a phobl â **phrofiad byw** at ei gilydd i gynllunio a threfnu gwaith.

Mae **profiad byw** yn meddwl pobl sydd wedi meddwl am **hunanladdiad** neu **hunan-niweidio.** Neu maen nhw'n adnabod pobl eraill sydd wedi **hunan-niweidio** neu wedi marw trwy **hunanladdiad.**



- Mae gennym ni **Fwrdd Sicrwydd y Gweinidogion ar Iechyd Meddwl, Hunanladdiad a Hunan-niweidio** i oruchwylio'r gwaith yma.




- Mae gennym ni **Fwrdd Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio**. Maen nhw'n dod â  wasanaethau a phartneriaid sydd â rôl mewn stopio **hunanladdiad** a **hunan-niweidio** at ei gilydd i gyflawni newid.




- Mae gan wefan GIG 111 Cymru dudalennau sy'n cynnig cymorth ac arweiniad ar gyfer cymorth am **hunan-niweidio** ac ar gyfer **meddyliau hunanladdiad**.

> **Meddyliau hunanladdol** ydy pan fydd rhywun yn meddwl am **hunanladdiad** neu'n cynllunio **hunanladdiad.** Mae'r meddyliau yma yn gallu bod yn ddifrifol ac yn fanwl, neu'n pasio.





- Mae tîm **hunanladdiad a hunan-niweidio** y GIG yn cynnal hyfforddiant, cynadleddau, gweithdai a gweminarau ar **hunanladdiad** a **hunan-niweidio** yng Nghymru.



Cefnogi



- Mae gennym ni wasanaethau cymorth ffôn, sgwrsio ar-lein ac e-bost drwy **Samariaid Cymru**.



- Mae gennym ni ganllawiau ar gyfer **"Ymateb i faterion hunan-niweidio a meddyliau am hunanladdiad mewn pobl ifanc"**. Ac rydyn ni'n cefnogi ysgolion a lleoedd eraill i bobl ifanc ddilyn hyn.




- Rydyn ni wedi darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth i rai sefydliadau cyhoeddus.



- Mae gennym ni y **Gwasanaeth Cynghori a Chyswllt Cenedlaethol**. Mae'n cefnogi pobl sy'n cael eu heffeithio gan hunanladdiad.




- Mae Gweithrediaeth y GIG wedi creu adnodd ar-lein o'r enw **Mae Help wrth Law**. Cefnogi pobl sy'n cael eu heffeithio gan **hunanladdiad** neu farwolaeth anesboniadwy.



Mae **adnoddau** yn gallu bod yn bethau fel staff, arian, hyfforddiant a gwybodaeth.




Rydyn ni hefyd yn:

- Gwella iechyd meddwl a llesiant yng Nghymru.



- Cefnogi pobl ifanc yng Nghymru i gael addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.



- Cefnogi pobl sy’n profi **tlodi**.

Mae **tlodi** yn meddwl peidio â chael digon o arian ar gyfer pethau sylfaenol fel bwyd, gwresogi a dillad.



- Delio gyda materion sy’n effeithio ar bobl fel **hiliaeth**, bwlio a thrais.

**Hiliaeth** ydy pan fydd rhywun yn trin person arall yn wahanol neu’n annheg oherwydd eu cefndir, diwylliant, neu gredoau crefyddol neu sut maen nhw’n byw.



- Gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn gyfartal fel pobl o wahanol hiliau, pobl **LHDTQ+** a phobl ag anableddau.



Mae **LHDTQ+** yn sefyll am Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsryweddol, Queer ac eraill. Dyma gymuned o bobl sy'n rhannu profiadau oherwydd pwy ydyn nhw a phwy maen nhw'n eu caru.

# Cynllun cyflawni




Dyma grynodeb o'r camau fydd yn cael eu cymryd dros y 3 blynedd nesaf.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn fersiwn lawn y Cynllun Cyflawni [**https://www.llyw.cymru/heb-ganfod-y-dudalen**] neu rydych chi'n gallu cysylltu â:




**mentalhealthandvulnerable groups@gov.wales**

## Nod 1 Gwrando a Dysgu

**Nod:** Deall **hunanladdiad** a **hunan-niweidio** yn well trwy**:**



- cynnal ymchwil
- casglu data a



- gwrando ar bobl sydd â **phrofiad byw.**

## Gweithredoedd



- Siarad â phobl sydd â **phrofiad byw**. Ysgrifennu fframwaith sy'n dweud **sut** rydyn ni'n cynnwys barn pobl sydd â **phrofiad byw**. Erbyn **Ebrill 2026**.



- Dod o hyd i lefydd i gael gwybodaeth am **hunan-niweidio** yng Nghymru. Erbyn **Ebrill 2026**.




- Sefydlu a chytuno ar ffyrdd o gasglu a rhannu gwybodaeth. Erbyn **Ebrill 2027**.




- Defnyddio'r **system RTSSS** i gasglu ac adrodd mwy o wybodaeth. Defnyddio'r system yma i wella'r wybodaeth sydd gennym ni. Dyma ein system ar gyfer casglu gwybodaeth am **hunanladdiadau** sydd yn cael eu hamau. Erbyn **Ebrill 2028**.



- Sefydlu rhwydwaith tystiolaeth yng Nghymru, sy'n gysylltiedig â'r Ganolfan Genedlaethol. Fe fydd hyn yn gweithredu fel 1 lle rydyn ni'n gallu rhannu'r holl wybodaeth bwysig. A chytuno ar ffyrdd o wneud synnwyr o'r wybodaeth sydd gennym ni. Erbyn **Ebrill 2028**.



- Gwneud y Ganolfan Genedlaethol yn fwrdd cynghori swyddogol i Lywodraeth Cymru. Erbyn **Ebrill 2026**.







- Sefydlu cymuned ymarfer **profiad byw**. Mae hwn yn grŵp o weithwyr proffesiynol a phobl sydd â **phrofiad byw**. Fe fyddan nhw'n gweithio gyda'i gilydd i drafod materion a rhannu arfer gorau. Erbyn **Ebrill 2028.**

## Nod 2: Stopio



**Nod:** Gweithio gyda phobl ar draws y Llywodraeth a sefydliadau eraill i:

- Codi ymwybyddiaeth a delio ag achosion a risgiau **hunanladdiad** a **hunan-niweidio**.




- Gwneud yn siŵr bod gwybodaeth yn y cyfryngau yn ddefnyddiol ac yn gefnogol.
- Creu ffyrdd o ymateb yn well i risgiau ac achosion.

### Gweithredoedd



- Edrych ar yr effaith bosibl mae polisïau a rhaglenni'r llywodraeth yn gallu ei gael ar **hunanladdiad** a **hunan-niweidio**. Er enghraifft, ein gwaith ar wella iechyd meddwl a llesiant yng Nghymru, a chefnogi pobl sy'n profi **tlodi**. **Mae hon yn weithred barhaus.**




- Sefydlu ffyrdd ar gyfer cynnwys **hunanladdiad** a **hunan-niweidio** mewn **asesiadau effaith**. Mae'r asesiadau yma yn edrych ar pa fath o effaith fydd polisïau, cynlluniau a gwaith yn ei gael ar bobl. Erbyn **Ebrill 2026**.



- Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o **hunanladdiad** a **hunan-niweidio** i staff Llywodraeth Cymru. Erbyn **Ebrill 2026**.




- Adolygu canllawiau ar gyfer sut mae **hunanladdiad** a **hunan-niweidio** yn cael ei drafod yn y cyfryngau. A sefydlu ffyrdd o ddelio â phryderon am sut mae siarad amdanyn nhw. Erbyn **Ebrill 2028**.



- Creu ffordd o ddelio â mannau cyhoeddus lle mae pobl yn gallu mynd i ddod â'u bywydau eu hunain i ben. Erbyn **Ebrill 2026**.



- Creu ffordd o ymateb pan fydd dulliau newydd o **hunan-niweidio** neu **hunanladdiad** yn dod yn boblogaidd. Erbyn **Ebrill 2026.**



- Gwneud yn siŵr bod arweinwyr mewn gwasanaethau cyhoeddus yn gallu helpu i gyflawni ein nodau ar gyfer **hunanladdiad** a **hunan-niweidio**. Erbyn **Ebrill 2028.**

## Nod 3: Grymuso



**Nod:** Gwneud yn siŵr bod gwybodaeth ac **adnoddau** ar gael i bawb i:





- gwneud yn siŵr ein bod yn cynyddu ymwybyddiaeth a,

- dealltwriaeth o **hunanladdiad** a **hunan-niweidio** ar draws Cymru.



Fe fydd hyn yn helpu pawb i allu cefnogi rhywun mewn angen os ydyn nhw'n estyn allan.

**Gweithredoedd**

Fe fydd y **Rhaglen Hunanladdiad a Hunan-niweidio, Gweithrediaeth y GIG** yn:



- Edrych ar pa mor dda mae'r cyhoedd yn deall **hunanladdiad** a **hunan-niweidio**. Creu a hyrwyddo adnoddau codi ymwybyddiaeth. **Mae hon yn weithred barhaus.**



- Creu modiwl hyfforddi ymwybyddiaeth **hunan-niweidio** (mae un ar gyfer **hunanladdiad** yn barod). Erbyn **Ebrill 2026**.



- Gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu cael mynediad at hyfforddiant. Erbyn **Ebrill 2027**.



- Cefnogi pobl i ddatblygu sgiliau gwrando a chynllunio diogelwch. **Mae hon yn weithred barhaus.**

## Nod 4: Cefnogi

**Nod:** Gwella gwasanaethau i bobl sydd yn:




- **hunan-niweidio**
- meddwl am **hunanladdiad**.



Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau yn cynnig cymorth defnyddiol i bobl sydd angen help gyda **hunan-niweidio** neu feddyliau **hunanladdiad**.




Gwneud hi'n glir sut mae pobl yn gallu cael cymorth gyda **hunan-niweidio.**

## Gweithredoedd




- Hysbysu'r **Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl**. Dyma ein cynllun gwaith ar gyfer gwella gwasanaethau iechyd meddwl. Erbyn **Ebrill 2028**.



- Gweithio gyda phartneriaid ar y **Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol**. Nod y cynllun yma ydy cael gweithlu iechyd meddwl cryf sy'n gallu ateb anghenion pobl Cymru. **Mae hon yn weithred barhaus.**




- Gweithio ar draws y system iechyd a gofal i wella sut rydyn ni'n ymateb i bobl ag anghenion brys. Er enghraifft, **cymorth argyfwng**. Erbyn **Ebrill 2026.**





**Argyfwng** ydy pan fydd rhywun yn mynd trwy sefyllfa anodd iawn ac angen help yn gyflym.



- Edrych ar pa wasanaethau sydd gennym ni ar hyn o bryd i gefnogi pobl gyda meddyliau **hunanladdol** a **hunan-niweidio**. Nodi ffyrdd o wella ein cynnig gwasanaeth. Erbyn **Ebrill 2026**.




- Creu a chyflwyno  cynllun hyfforddi stopio hunanladdiad a **hunan-niweidio**. Hyrwyddo'r hyfforddiant yma trwy wahanol wasanaethau fel iechyd meddwl, gofal brys ac argyfwng a meddygon teulu a deintyddion. Erbyn **Ebrill 2026**.




- Creu ffordd glir i **ofal sylfaenol** ymateb i **hunan-niweidio**. Mae **gofal sylfaenol** yn meddwl gwasanaethau iechyd yn y gymuned, fel eich meddyg, eich deintydd a'ch optegydd. Erbyn **Ebrill 2026**.




- Gwneud yn siŵr bod y **Rhaglen Diogelwch Cleifion** yn ateb anghenion pobl sydd mewn perygl o **hunanladdiad** a **hunan-niweidio**. Nod y rhaglen yma ydy gwella ansawdd gofal y GIG. Erbyn **Ebrill 2028**.






- Ysgrifennu datganiad ansawdd iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer **hunan-niweidio**.
  Mae datganiad ansawdd yn nodi sut olwg sydd ar gymorth a gwasanaethau da. Erbyn **Ebrill 2026.**

## Nod 5: Arfogi



**Nod:** Gwella gwasanaethau sy'n cefnogi pobl â phroblemau sydd yn gallu cynyddu'r risg o **hunanladdiad** a **hunan-niweidio**.





Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau yn gallu gweithio gyda'i gilydd a rhannu gwybodaeth.



Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gallu darparu cefnogaeth.

## Gweithredoedd




- Nodi gwasanaethau sy'n cefnogi pobl sydd mewn mwy o berygl o **hunanladdiad** a **hunan-niweidio**. Er enghraifft, gwasanaethau cymorth cyffuriau ac alcohol, canolfannau gwaith a gwasanaethau cam-drin domestig. Dod o hyd i gyfleoedd i wella'r gwasanaethau yma. Erbyn **Ebrill 2026.**




- Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau yn gwybod am, ac yn gallu cael mynediad at adnoddau hyfforddi. **Mae hon yn weithred barhaus.**




- Gwneud yn siŵr bod ein polisïau a'n cynlluniau eraill yn cynnwys canllawiau ar:
  - **Hunanladdiad**
  - **Hunan-niweidio**



– ac ymddygiadau sy'n niweidio iechyd. **Mae hon yn weithred barhaus.**



- Cefnogi pobl sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan **hunan-niweidio** a **hunanladdiad**.



- Creu a chefnogi ffyrdd i wasanaethau weithio gyda'i gilydd mewn gwahanol feysydd. **Mae hon yn weithred barhaus.**

## Nod 6: Ymateb



**Nod:** Bod yn garedig a gofalgar a rhoi'r gefnogaeth orau i bobl sydd yn cael eu heffeithio gan **hunanladdiad.**




Mae gwasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i ymateb i **hunanladdiad**.

## Gweithredoedd


Fe fydd **Rhaglen Hunanladdiad a Hunan-niweidio Gweithrediaeth GIG** yn:





Cefnogi

- Edrych ar pa mor dda ydy ein hymateb a'n proses bresennol ar gyfer cefnogi pobl sydd yn cael eu heffeithio gan **hunanladdiad**. Edrych i weld a oes angen i ni gynnig mwy o gymorth drwy'r **Gwasanaeth Cyswllt Cynghori Cenedlaethol**. Dyma ein gwasanaeth cymorth am ddim i unrhyw un sy'n cael eu heffeithio gan **hunanladdiad**. Erbyn **Ebrill 2027**.




- Creu a chadw at brosesau cenedlaethol ar gyfer ymateb i **hunanladdiad**. Erbyn **Ebrill 2026**.



- Creu a chadw at brosesau cenedlaethol ar gyfer ymateb i batrymau **hunanladdiad**.
  Er enghraifft, lle mae llawer o bobl wedi marw trwy **hunanladdiad** mewn 1 ardal, mewn cyfnod byr o amser. Erbyn **Ebrill 2026**.




- Gweithio gyda Llywodraeth y DU i greu rheolau ar gyfer gwefannau am gadw gwybodaeth yn gysylltiedig â marwolaeth trwy **hunanladdiad** a **hunan-niweidio**.
  Mae’r wybodaeth yma yn gallu cael ei defnyddio i helpu i ddeall mwy am eu marwolaethau.
  **Mae hon yn weithred barhaus.**

# Geiriau anodd

| | |
|---|---|
| **Argyfwng** | Argyfwng ydy pan fydd rhywun yn mynd trwy sefyllfa anodd iawn ac angen help yn gyflym. |
| **LHDTQ+** | Mae LHDTQ+ yn sefyll am Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsryweddol, Queer ac eraill. Dyma gymuned o bobl sy'n rhannu profiadau oherwydd pwy ydyn nhw a phwy maen nhw'n eu caru. |
| **Profiad byw** | Mae profiad byw yn meddwl pobl sydd wedi meddwl am hunanladdiad neu hunan-niweidio. Neu maen nhw'n adnabod pobl eraill sydd wedi hunan-niweidio neu wedi marw trwy hunanladdiad. |
| **Tlodi** | Heb ddigon o arian ar gyfer pethau sylfaenol fel bwyd, gwresogi a dillad. |
| **Hiliaeth** | Hiliaeth ydy pan fydd rhywun yn trin person arall yn wahanol neu'n annheg oherwydd eu cefndir, diwylliant, neu gredoau crefyddol neu sut maen nhw'n byw. |

| | |
|---|---|
| **Adnoddau** | Mae adnoddau yn gallu bod yn bethau fel staff, arian, hyfforddiant a gwybodaeth. |
| **Hunanladdiad** | Hunanladdiad ydy marwolaeth sydd yn cael ei achosi gan rywun sy'n brifo eu hunain yn fwriadol. |
| **Hunan-niweidio** | Mae hunan-niweidio yn golygu brifo eich hun yn fwriadol, trwy hunan-niweidio neu hunan-wenwyno. |
| **Meddyliau hunanladdol** | Meddwl am neu gynllunio hunanladdiad. Mae'r meddyliau yma yn gallu bod yn ddifrifol ac yn fanwl, neu'n pasio. |